Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Gofal Cymdeithasol Cymru Polisi Amddiffyniad o Deitl

(Chwefror 2026)

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Polisi Amddiffyniad o Deitl

## 1. Cyflwyniad – rheswm am y polisi

1.1 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru ('y Gofrestr') a'n prif amcan yw diogelu, hybu a chynnal diogelwch a lles y cyhoedd yng Nghymru. Mae gweithwyr cymdeithasol ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni.

1.2 Mae gweithwyr cymdeithasol sydd heb gofrestru yn peryglu ein gallu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Efallai y byddant yn tanseilio hyder y cyhoedd hefyd yn ein gwaith rheoleiddio a'r proffesiwn gwaith cymdeithasol.

1.3 O dan adran 111 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), mae'n drosedd i unigolyn yng Nghymru nad yw wedi cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol ar gofrestr berthnasol wneud y canlynol:

a) cymryd neu ddefnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol
b) cymryd neu ddefnyddio unrhyw ddisgrifiad sy'n awgrymu ei fod wedi cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, neu
c) esgus bod yn weithiwr cymdeithasol mewn unrhyw ffordd arall

gyda'r bwriad o dwyllo rhywun arall.

1.4 Dywed adran 111(3) o'r Ddeddf bod unigolyn sy'n euog o drosedd amddiffyniad o deitl yn atebol, o gael euogfarn ddiannod, i dalu dirwy.

1.5 Mae adran 72 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi a chyhoeddi datganiad o'i pholisi mewn perthynas â dwyn achosion troseddol.

1.6 Mae'r ddogfen hon yn trafod y gofyniad hwn. Mae'n nodi'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i atal troseddau amddiffyniad o deitl a'r amgylchiadau lle byddwn yn erlyn troseddwyr.

1.7 Rydym yn ystyried erlyn fel y dewis olaf a, lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio ffyrdd eraill o sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amddiffyniad o deitl. Fodd bynnag, byddwn yn erlyn troseddwyr lle rydym yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

1.8 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond gweithwyr cymdeithasol y gallwn eu herlyn am droseddau amddiffyniad o deitl ac ni ellir erlyn unrhyw gategorïau eraill o weithiwr gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae adran 111 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymestyn amddiffyniad o deitl i rolau gofal cymdeithasol eraill. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn i adlewyrchu unrhyw newid o'r fath yn y dull gweithredu.

## 2 Troseddau Amddiffyniad o Deitl - Bwriad

2.1 Mae bwriad i dwyllo yn rhan allweddol o'r troseddau amddiffyniad o deitl a nodir yn adran 111 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Er mwyn sefydlu bod gweithiwr cymdeithasol sydd heb gofrestru wedi bwriadu twyllo, byddai'n rhaid i ni brofi ei fod yn ceisio arwain eraill i gredu ei fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

2.2 Mae'r bwriad i dwyllo'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, sefyllfaoedd lle mae'r unigolyn sydd heb gofrestru:

a) yn dweud wrth bobl ei fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig pan nad yw – mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n weithwyr cymdeithasol cymwys ond sydd heb gofrestru, boed hynny oherwydd nad ydynt wedi cofrestru erioed neu fod eu cofrestriad wedi dod i ben

b) yn defnyddio deunydd hysbysebu sy'n awgrymu ei fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig – mae hyn yn cynnwys defnyddio cardiau busnes lle mae'n defnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol

2.3 Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys sefyllfaoedd lle mae wedi defnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir nad yw wedi cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol. Er enghraifft:

a) lle mae'n defnyddio rhagddodiad priodol fel 'myfyriwr' i ddangos nad yw wedi'u cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol cymwys

b) lle'r oedd yr unigolyn ar ein Cofrestr, ond nad yw arni bellach ac y cyfeirir ato mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir nad yw wedi cofrestru mwyach – er enghraifft, gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ymddeol

c) gan ddarparwr cwrs sy'n cynnig addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol.

2.4 Lle rydym yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai fod achos o drosedd amddiffyniad o deitl wedi digwydd, gan gynnwys gwybodaeth o ffynonellau dienw, ac rydym yn gallu profi'r honiad, byddwn yn rhoi llythyr 'ymatal' i'r unigolyn dan sylw. Byddwn yn gofyn am gadarnhad bod yr unigolyn wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol.

2.5 Lle byddwn yn rhoi llythyr ymatal i unigolyn, byddwn yn creu cofnod o hyn a byddwn yn ei gadw yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 3 Sut rydym yn ymdrin â throseddau amddiffyniad o deitl

### Dim bwriad i dwyllo

3.1 Os ydym wedi'n bodloni bod unigolyn sydd heb gofrestru wedi camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' heb unrhyw fwriad i dwyllo, neu lle na allwn ganfod a oeddent yn bwriadu twyllo, byddwn yn:

a) anfon llythyr rhybudd at yr unigolyn[1]
b) hysbysu ei gyflogwr.

3.2 Os yw unigolyn sydd heb gofrestru yn parhau i gamddefnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol ar ôl i ni anfon llythyr rhybudd ato, ond rydym yn fodlon nad oedd yn bwriadu twyllo, byddwn yn anfon llythyr pellach ato yn ailddatgan y sefyllfa ac yn anfon llythyr at ei gyflogwr os oes ganddo un.

Pan fyddwn yn cael cadarnhad gan yr unigolyn sydd heb gofrestru ei fod wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' ac rydym yn fodlon nad yw'n defnyddio'r teitl mwyach, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach.

3.3 Byddwn yn cadw cofnod o hyn yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Gofal Cymdeithasol Cymru.

---

[1] Bydd y llythyr yn nodi'r gofyniad cyfreithiol i gofrestru, y canlyniadau posibl o ddiffyg cydymffurfio a'r broses ar gyfer cofrestru. Bydd angen ymateb hefyd yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi rhoi'r gorau i weithio fel gweithiwr cymdeithasol.

**Bwriad i dwyllo**

3.4 Os ydym yn fodlon bod unigolyn sydd heb gofrestru wedi camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' gyda'r bwriad o dwyllo, byddwn yn anfon llythyr rhybudd ato[2] ac yn hysbysu ei gyflogwr.

3.5 Os yw unigolyn sydd heb gofrestru yn parhau i gamddefnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol gyda'r bwriad o dwyllo ar ôl i ni anfon llythyr rhybudd ato, mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig pan fo materion yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd neu faterion yn ymwneud â mantais ariannol, byddwn yn cyfeirio'r unigolyn sydd heb gofrestru at uned amddiffyn yr heddlu i ystyried camau gweithredu.

3.6 Os yw Uned Amddiffyn yr Heddlu'n penderfynu peidio â gweithredu, bydd argymhelliad yn cael ei wneud i Gofrestrydd Gofal Cymdeithasol Cymru i erlyn y gweithiwr sydd heb gofrestru. Bydd y Cofrestrydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch bwrw ymlaen ag erlyniad.

3.7 Os yw unigolyn sydd heb gofrestru yn parhau i gamddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' gyda bwriad o dwyllo ar ôl i ni ei erlyn, byddwn yn cymryd camau i'w erlyn eto.

3.8 Byddwn yn cadw cofnod o hyn yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Gofal Cymdeithasol Cymru.

**David Pritchard**

Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu

---

[2] Bydd y llythyr yn nodi'r gofyniad cyfreithiol i gofrestru, canlyniadau posibl diffyg cydymffurfio a'r broses ar gyfer cofrestru. Bydd yn gofyn am ymateb hefyd yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi rhoi'r gorau i weithio fel gweithiwr cymdeithasol.